# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 17 Hydref 2019** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, J.Miller, S.Paddison, D.Whitelock, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Warren a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.R.Lockyer |

---

1. **DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU O FUDDIANT GAN AELODAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Galsworthy | Parthed: Tegwch y Polisi Darpariaeth Gwasanaethau a'r Adolygiad o'r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau - Cydlynwyr Ardaloedd Lleol am ei bod hi'n Gynorthwyydd Personol i'w mam. |

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Caiff cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Medi 2019 eu cymeradwyo yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Tudalen 6 - Astudiaeth Dichonoldeb Cartref Gofal Preswyl Trem y Glyn

Bod y paragraff sy'n cynnwys y canlynol:

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai'r gwerthusiad yr un peth â'r hyn a gynhaliwyd yn flaenorol lle nodwyd bod yr angen am ofal preswyl yn lleihau.

yn cael ei ddisodli gan:

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai'r gwerthusiad yn defnyddio'r un meini prawf ag a ddefnyddiwyd pan gynhaliwyd y gwerthusiad blaenorol a ddaeth i'r casgliad bod yr angen am ofal preswyl yn lleihau. Eglurwyd bod y strategaeth wedi newid o ganolbwyntio'n unig ar daliadau uniongyrchol i ddatblygu opsiynau ychwanegol ar gyfer gofal preswyl.

## 3. DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA CYN CRAFFU BWRDD Y CABINET (ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Adroddiad Blynyddol Gofalwyr Bae'r Gorllewin

Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad am gynnydd rhoi Cynllun Gweithredu Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Bae'r Gorllewin ar gyfer 2018-19 ar waith, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr aelodau'n falch bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys astudiaethau achos a oedd yn llawn gwybodaeth. Yn ogystal, roedd aelodau'n falch bod yr wybodaeth wedi'i llunio yn ieithoedd y gymuned ond credwyd y dylid rhoi ystyriaeth i lunio gwybodaeth sy'n glir ac yn hawdd ei darllen.

Codwyd yr ymholiadau canlynol gan aelodau:

- A fu cynnydd yn niferoedd y gofalwyr sy'n nodi eu bod yn ofalwyr?
  Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i geisio nodi gofalwyr fel rhan o'u gwaith beunyddiol a chynhaliwyd ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth ychwanegol yn y Gwasanaethau i Oedolion. Datblygodd y Gwasanaethau Plant raglen hyfforddiant gydag ysgolion i geisio nodi a chefnogi gofalwyr ifanc. Cymerodd 1,600 o bobl ifanc ran yn y sesiwn awr a daeth

200 o ofalwyr ifanc ymlaen i ofyn am gymorth. Yn ogystal, mae 2 ofalwr ifanc yn aelodau o'r Cyngor Ieuenctid ac maent yn rhagweithiol iawn wrth gyflwyno materion.

- A oedd cynlluniau i ymgysylltu â'r clybiau ieuenctid?
  Roedd cludiant yn broblem fawr i ofalwyr ifanc er mwyn cyrraedd y clybiau ieuenctid. Hefyd, pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y gofalwyr ifanc eu bod yn mwynhau bod yng nghwmni gofalwyr eraill fel y gallant rannu eu profiadau. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob wythnos a darperir cludiant i hwyluso hyn. Gwnaed cysylltiadau hefyd ag asiantaethau eraill i sicrhau bod y gofalwyr ifanc yn derbyn yr holl gefnogaeth angenrheidiol.

- Pam na ellid cynnal yr asesiad gofalwyr ar yr un pryd ag asesiad defnyddiwr y gwasanaeth? Nodwyd hyn gan rai gofalwyr fel opsiwn a ffefrir.
  Esboniodd swyddogion fod yr adborth a dderbyniwyd yn rhoi safbwynt gwahanol a bod y Gwasanaeth Gofalwyr yn cynnal y rhain ar ran y cyngor. Pe bai'n well gan unrhyw ofalwr gael y ddau asesiad ar yr un pryd, yna byddai hyn yn cael ei drefnu.

- Pam nad oedd yr arian ar gyfer Cynllun Gweithredu Partneriaeth Gofalwyr Bae'r Gorllewin wedi cael ei rannu'n gyfartal rhwng y partneriaid?
  Esboniodd swyddogion y cytunwyd yn hanesyddol ar y meini prawf ar gyfer rhannu'r arian pan gafodd y bartneriaeth ei sefydlu. Gyda'r bartneriaeth newydd rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, sef Partneriaeth Gofalwyr Gorllewin Morgannwg, rhennir yr arian rhwng y ddau awdurdod.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

<u>Adroddiad Blynyddol Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin 2018/19</u>

Derbyniwyd gwybodaeth mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin 2018/19 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelodau'n falch bod y Bwrdd Diogelu Ieuenctid wedi'i sefydlu yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd trefniadau tebyg yn cael eu gwneud yn Abertawe.

Derbyniwyd esboniad y byddai nifer y lleoliadau gofal ledled y rhanbarth ar gael yn yr adroddiad nesaf sef Adroddiad Blynyddol Diogelu Gorllewin Morgannwg.

Roedd aelodau'n poeni mai dim ond yn awr yn y mae protocol ar gyfer Cartrefi Gofal Plant a'u dyletswyddau i blant coll yn cael ei ddatblygu. Rhoddwyd esboniad mai protocol newydd oedd hwn a'i fod yn cael ei ddatblygu gyda Heddlu De Cymru o ganlyniad i nifer cynyddol o gartrefi gofal preswyl preifat i blant yn agor yn y fwrdeistref sirol. Nid oes rheoliadau i gyfyngu ar y niferoedd o'r cartrefi hyn a oedd yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer plant o awdurdodau eraill. Nodwyd pwysau gan yr Heddlu o ran nifer y galwadau a oedd yn cael eu derbyn gan y cartrefi hyn pan fyddai plentyn yn eu gofal yn mynd ar goll, er bod y cartrefi hyn yn y rhan fwyaf o achosion yn gwybod lle mae'r plentyn wedi bod yn aros. Roedd gwaith yn parhau i edrych ar y diffiniad o blentyn sy'n mynd ar goll er mwyn cynorthwyo'r heddlu. Cafwyd cadarnhad fod Heddlu De Cymru'n gyfrifol am gostau'r heddlu wrth chwilio am blentyn coll.

Er mwyn ateb ymholiadau aelodau, cafwyd cadarnhad bod gan y cyngor drefniadau monitro ar waith ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll. Roedd Barnardos wedi cyfweld â'r holl blant ar ôl un achos i geisio darganfod pam yr aeth y plentyn ar goll. Yr heddlu'n unig sydd â'r data am yr holl blant yr adroddir eu bod ar goll. Yr awdurdod lleoli oedd yn dal yn gyfrifol am blant o'r tu allan i'r sir sy'n cael eu rhoi mewn cartrefi gofal preswyl preifat.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

<u>Polisi Cludiant â Chymorth</u>

Cafodd y pwyllgor wybodaeth am ganlyniad yr ymgynghoriad ar Bolisi Cludiant â Chymorth y Gwasanaethau i Oedolion fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd aelodau am eglurhad cyfreithiol ar elfennau symudedd y Taliadau Annibyniaeth Personol (TAP) a'r Lwfans Byw i'r Anabl (LBA). Eglurwyd bod y rheoliadau'n mynnu bod y cyngor yn anwybyddu elfennau symudedd y TAP a'r LBA wrth gyfrifo rhwymedigaethau person i gyfrannu tuag at gost eu gofal a chefnogaeth. Nid oes ganddynt ymroadau wrth ystyried pa gludiant ymarferol/adnoddau symudedd sydd gan berson eisoes neu y gall gael mynediad atynt wrth asesu a oes angen darparu cludiant i wasanaeth dydd.

Sicrhawyd aelodau na fyddai disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaeth ddod o hyd i'w cludiant eu hunain os na fyddai gofalwr yn gallu mynd â nhw i ganolfannau dydd oherwydd ymrwymiadau personol. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu o hyd.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, eglurwyd na fyddai effaith ar gymunedau'r cymoedd. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar angen unigolyn. Pe bai'r asesiad yn dod i'r casgliad y gallai defnyddiwr y gwasanaeth ddefnyddio cludiant cyhoeddus, ond nad oedd cludiant cyhoeddus ar gael, byddai'r cyngor yn sicrhau y darperir cludiant i alluogi defnyddiwr y gwasanaeth i fynd i wasanaethau dydd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai effaith ar y gweithlu a oedd yn darparu'r cludiant. Eglurwyd nad oedd swyddogion yn teimlo y byddai effaith gan y byddai'n rhaid parhau i ddarparu cludiant i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Gofynnodd aelodau a fyddai unrhyw gyfle i asiantaethau eraill ddefnyddio gwasanaethau cludiant y cyngor yn ystod unrhyw amserau segur. Byddai swyddogion yn codi'r mater gyda'r adran berthnasol.

Roedd y pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddwyr gwasanaeth, er gwaethaf y ffaith bod 1,800 o bobl yn ei ddefnyddio. Eglurodd y swyddog fod pob defnyddiwr gwasanaeth wedi derbyn llythyr, bod nifer o ddigwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth wedi’u trefnu ac y defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol.

Cafwyd trafodaeth bellach am y gwaith paratoi a gafwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth i'w galluogi i deithio'n annibynnol a gwybod yr hyn i'w wneud pe bai rhywbeth yn digwydd sy'n wahanol i'r drefn arferol. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth â'r gyrwyr bysus perthnasol fel eu bod yn ymwybodol o broblemau posib. Ar gais yr aelodau, byddai swyddogion yn ymchwilio i ba hyfforddiant a ddarperir gan Gyfarwyddiaeth Cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn fewnol ac a oes unrhyw hyfforddiant allanol yn cael ei roi. Yn ogystal, byddai gan ofalwyr hawl i docyn bws i fynd gyda defnyddwyr gwasanaeth os oeddent yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Polisi Tegwch Darpariaeth Gwasanaethau

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Bolisi Tegwch Darpariaeth Gwasanaethau y Gwasanaethau i Oedolion fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd y pwyllgor yn fodlon ar y newidiadau i'r polisi fel y'u cynigiwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles. Yn ogystal, roedd y pwyllgor yn hapus i gael adroddiad blynyddol ond gofynnodd a fyddai modd ailgyflwyno'r adroddiad i'r pwyllgor yn gynharach nag yn flynyddol pe bai unrhyw broblemau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder o ran yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad ynghylch pryd y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael mynediad at Daliadau Uniongyrchol. Esboniodd swyddogion, o dan y Ddeddf, os aseswyd angen, y byddai'n rhaid i'r cyngor gynnig Taliadau Uniongyrchol.

Er mwyn ateb ymholiadau'r aelodau, dywedwyd bod gan y cyngor restr o'r holl gontractwyr cymeradwy y comisiynir gwasanaethau ganddynt ond ni fyddai'r rhestr hon yn cael ei rhannu â defnyddwyr gwasanaeth i'w defnyddio gyda'u Taliadau Uniongyrchol. Gellid ystyried hyn fel y cyngor yn ymyrryd â dewis defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cyngor yn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n briodol. Pe byddai angen, byddai'r cyngor yn darparu'r gwasanaeth ac yn tynnu'r Taliadau Uniongyrchol yn eu hôl.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adolygiad o'r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau – Cydlynwyr Ardaloedd Lleol

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am estyn cylch gorchwyl y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol o'u hardaloedd daearyddol presennol ar gyfer yr awdurdod lleol ehangach.

Rhoddwyd esboniad ar y gwahaniaethau rhwng Cydlynwyr Ardaloedd Lleol a Chysylltwyr. Darparodd Cydlynwyr Ardaloedd Lleol gefnogaeth ymyrryd yn gynnar ac atal i bobl ddiamddiffyn, ar draws

pob oed a demograffig. Roedd cysylltwyr yn edrych am wasanaethau cymunedol a oedd yn ddewis amgen i wasanaethau nad ydynt bellach ar gael. Yn y dyfodol, byddai cysylltwyr yn gweithio ochr yn ochr â’r CALl i'w cynorthwyo yn eu rôl.

Rhoddwyd cadarnhad y cynyddwyd nifer y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol i chwech gan fod y gwasanaeth wedi'i ehangu ledled y fwrdeistref sirol.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

Cynllun Blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot 2019 – 2020

Derbyniodd y pwyllgor y cefndir a chrynodeb cynnwys Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot 2019 – 2020 fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd

Roedd yr aelodau'n falch bod adeilad wedi'i nodi ar gyfer y Ganolfan Addysg.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch y gefnogaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Meddwl (CAMHS). Eglurwyd y cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori misol gyda CAMHS a bod hyn wedi galluogi mynediad cyflymach at wasanaethau. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda CAMHS i ddatblygu swydd arbenigol yn y gwasanaeth.

Hefyd, yn y dyfodol, byddai CAMHS yn cynnal archwiliadau o achosion y gorffennol i ddysgu ganddynt. Ar ôl hyn, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor gyda chanlyniadau'r archwiliad.

Gofynnodd yr aelodau a oedd cysylltiad yn y data â chyflyrau niwro-amrywiol gan nad oedd dim wedi'i gynnwys yn y data sydd yn yr adroddiad. Esboniodd swyddogion fod y data a gasglwyd wedi'i reoli'n flaenorol gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Bae'r Gorllewin. Byddai Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Gorllewin Morgannwg yn casglu data'n lleol a byddai'n cynnwys gwybodaeth am addysg. Yn y dyfodol, byddai adroddiadau sy'n cael eu hystyried gan y pwyllgor yn cynnwys data lleol.

Amlygwyd, o ganlyniad i weithio'n agos gyda'r gwasanaethau plant a'r heddlu ar gam cynharach i atal ymddygiad rhag gwaethygu ac arwain at weithgarwch troseddol, fod niferoedd y bobl ifanc y mae eu hymddygiad yn gwaethygu wedi lleihau'n ddramatig.

Hefyd, gyda chyflwyno cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr y llys a'u presenoldeb ar y Bwrdd Rheoli, roedd perthnasoedd gwaith cadarnhaol wedi datblygu.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

4. **<u>RHAGLEN WAITH CRAFFU YMLAEN 2019/20</u>**

Nododd y pwyllgor y trefnwyd Seminar i'r Holl Aelodau ar gyfer 24 Hydref 2019. Hefyd byddai'r Adroddiad Awtistiaeth yn barod i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag